

Eitem: 06

Teitl: Fframwaith Sicrwydd Bwrdd drafft

Angen gweithredu / Action required	I'w gymeradwyo.
Amseru / Timing	Brys.
Risg / Risk	Heb Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn gweithredu o fewn Llais, mae risg na fydd Bwrdd Llais yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn nodau cyffredinol ac amcanion strategol y sefydliad a'r ystod o adroddiadau sefyllfa ar ei rolau a'i gyfrifoldebau ehangach. Mae'n darparu mecanweithiau i'r Bwrdd fod yn ymwybodol, trafod a cheisio sicrwydd ynghylch y risg o beidio â chyflawni ei nodau ac amcanion cytûn a chydymffurfio â'i gylch gwaith. Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yn elfen o drefniadau llywodraethu cyffredinol y sefydliad a chaiff ei adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd.
Cyllid / Finance	Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, ond mae cynnwys yr adroddiad yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ariannol Llais a chysylltiadau â'r trefniadau llywodraethu ehangach.
Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective	Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 – sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwr pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd o waith Llais ac felly, cyflawni pob amcan allweddol.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y maes hwn.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒

	Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒ Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Mae'r Prif Weithredwr wedi cymeradwyo'r papur hwn.
Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions	Nid yw'r Bwrdd wedi cael Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ar waith o'r blaen. Mae hwn yn ddatblygiad newydd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi cynnal trafodaethau amdano yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fel rhan o'i gyfarfodydd a'i sesiynau datblygu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n cael ei ddatblygu, a chytunwyd i'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo'n llawn.
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
Dyddiad / Date	17 Mawrth 2025
Cefndir / Background	
Yn dilyn blwyddyn weithredol gyntaf Llais, comisiynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr adolygiad/asesiad annibynnol o drefniadau llywodraethu a sicrwydd Llais. Cynhaliodd Eversheds Sutherland yr adolygiad hwn. Yna gofynnwyd i Ysgrifennydd interim y Bwrdd wneud rhagor o waith datblygu llywodraethu yn Llais a diweddarau systemau, prosesau a dogfennaeth llywodraethu. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo dros y flwyddyn ddiwethaf. Un o'r elfennau a argymhellwyd gan Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd oedd datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Mae'r ddogfen hon yn eiddo i'r Bwrdd, ac mae'n fecanwaith y gall y Bwrdd ei ddefnyddio i dderbyn gwybodaeth a sicrwydd ar waith gweithredu yn erbyn ei amcanion strategol cytûn, gwybodaeth am y risgiau parhaus posibl o beidio â chyflawni ei amcanion strategol cytûn a chydymffurfiaeth â'i rolau a'i gyfrifoldebau. Mae'r gwaith hwn wedi'i fframio trwy drafodaeth gyda'r Bwrdd ac mae wedi'i alinio i'r system OKR newydd. Ystyriwyd ei bod yn bwysig alinio'r fframwaith Sicrwydd Bwrdd arfaethedig â'r system OKR i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel y system perfformiad a rheoli cyffredinol ar gyfer Llais, yn hytrach na datblygu amserlen risg arall. Mae fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn gysylltiedig â strategaeth, polisi a threfniadau Rheoli Risg cyffredinol Llais. Mae dull rheoli risg Llais hefyd wedi bod yn cael ei adolygu ochr yn ochr â datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.	
Manylion / Detail	

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd drafft Llais hwn yn fodd i roi mecanwaith i'r Bwrdd a ddefnyddir i fod yn ymwybodol o effeithiolrwydd ei waith wrth gyflawni ei nodau strategol, yn glir ynghylch y risgiau i beidio â chyflawni'r nodau strategol hyn a'i gydymffurfiaeth â'i gylch gorchwyl.

Mae'r Fframwaith hefyd yn ceisio darparu mecanwaith i'r Bwrdd allu:

- deall ei fod yn cadw at ei werthoedd, ei rwymedigaethau cyfreithiol a'i ymrwymadau; a
- dangos llywodraethu cadarn a da trwy ei systemau, ymddygiadau, a phrosesau hy ei fod yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir am y rhesymau cywir.

Mae'r fframwaith hwn hefyd yn rhoi trosolwg o'r system gyffredinol o lywodraethu a sicrwydd drwy amlinellu'r strwythurau, prosesau a ffynonellau gwybodaeth a sicrwydd y dylai'r Bwrdd ddisgwyl eu gweld a'u derbyn o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad. Drwy'r rhwydwaith hwn o lywodraethu a sicrwydd, bydd y Bwrdd yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch:

- digonolrwydd a phriodoldeb rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr;
- y trefniadau dirprwyo sydd ar waith; ac
- a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion datganedig ai peidio .

Bydd hefyd yn cynorthwyo ac yn galluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w bartneriaid, Llywodraeth Cymru, a phobl Cymru ynghylch ei gynnydd yn erbyn ei rolau a'i gyfrifoldebau a'i amcanion y cytunwyd arnynt. Dylai hefyd helpu i ddangos bod y Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth ym mhopeth a wna ac y bydd yn atebol, yn agored ac yn dryloyw yn ei holl benderfyniadau a gweithgareddau.

Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel arfer yn cael ei ystyried ddwywaith y flwyddyn gan y Bwrdd. Unwaith y caiff ei gymeradwyo ar ddechrau blwyddyn ariannol ac adolygiad ar ôl chwe mis. Bydd y fframwaith wedyn yn cael ei drafod ar ddiwedd y flwyddyn, pan fydd y fersiwn newydd hefyd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo yn unol â chytundeb Cynllun Blynyddol newydd.